



# Hen Bethau – CA3/4

## Tasg 1: Y defnydd o 'hen'

Sylwch ar deitl y gerdd... **'Hen Bethau'**

Ansoddair yw 'hen', ac mae ansoddair fel arfer yn cael ei roi ar ôl enw, e.e.

mynydd **uchel**

merch **dawel**

llais **cras**

Mae 'hen' yn wahanol. Mae 'hen' *fel arfer* yn cael ei roi *o flaen* enw, e.e.

**hen** berson

**hen** fynydd

**hen** law

Mae defnydd arall i'r gair 'hen'.

Meddylwch am y frawddeg hon:

Roedd Dafydd wedi **hen** flino ar y gwaith hwn.

Ystyr hyn yw bod Dafydd wedi blino *ers amser hir* ar y gwaith.



TASG: Defnyddiwch yr ymadroddion canlynol mewn brawddegau:

- hen fynd
- hen oeri
- hen anghofio
- hen chwerthin



# Hen Bethau – CA3/4

## Tasg 2: Ysgrifennu disgrifiadol

Meddyliwch pa Nadolig rydych chi'n ei gofio fwyaf.

TASG: Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r Nadolig rydych chi'n ei gofio fwyaf, gan gofio defnyddio amrywiaeth o synhwyrâu.

- Oeddech chi wedi gweld teulu dros y gwyliau?
- Beth am ddisgrifio'r bwyd?
- Oedd arogl arbennig yn y cartref adeg y Nadolig?
- Pa gerddoriaeth/sain oedd i'w chlywed?
- Beth am y teimladau corfforol/meddyliol?



# Hen Bethau – CA3/4

## Tasg 3: Trafod atgofion

### Action Man

Rhyw fath o ddoli ar gyfer bechgyn yw Action Man. Roedden nhw'n boblogaidd iawn yn y 70au a'r 80au. Ydych chi'n cofio pa deganau oedd yn boblogaidd pan oeddech chi'n fach?

Yn eich grwpiau, trafodwch y gemau neu'r teganau a oedd yn arfer bod yn boblogaidd pan oeddech chi'n iau.





## Hen Bethau – CA3/4

### Tasg 4: Ysgrifennu cerdd





## **Edrychwch ar y llun hwn.**

Beth mae'n ei ddweud wrthym am y Nadolig?

Oes neges bwysig yma?

TASG: Ewch ati i ysgrifennu darn o farddoniaeth yn seiliedig ar y llun.



# Hen Bethau – CA3/4

## Tasg 5: Cymharu cerddi

Dyma gerdd gan y Prifardd Ceri Wyn Jones...

### Wedi'r Wyl

Heno fe rown, fel llynedd,  
wyl y byw yn ôl i'w bedd,  
wrth gloi doli'r babi bach  
i gadw mewn hen gadach,  
ac i'r atig rhoi eto  
y tamaid trist am y tro;  
i'r cartre' hwn rhoi'r crwt rhad  
yn ddwyfol o amddifad.  
Yno 'nghrud ei alltudiaeth,  
mae'n rhith o gorff, mae'n wyrth gaeth,  
ac ogof ein hangof ni  
ni wêl heno'i oleuni.

TASG LAFAR: Cymharwch y gerdd hon a cherdd Gwyn Thomas, 'Hen Bethau'.



# Hen Bethau – CA3/4

## Tasg 6: Cymharu cerddi 2

TASG YSGRIFENEDIG ESTYNEDIG:

'Wedi'r Wyl' Ceri Wyn Jones

'Hen Bethau' Gwyn Thomas

Yn y cerddi hyn, mae'r beirdd yn rhoi darlun o'r cyfnod wedi'r Nadolig i ni.

Cymharwch y cerddi, gan ddweud sut maen nhw'n debyg ac yn wahanol. Defnyddiwch y syniadau a drafodwyd yn y dasg flaenorol.